Hoffwn eich diweddaru ar cynlluniau i nodi 75 mlynedd ers diwrnod VE ar 8 Mai. Mae'n destun tristwch bod ein cynlluniau i gynnal digwyddiadau cenedlaethol mawr yng Nghymru i goffáu'r achlysur wedi gorfod cael eu canslo oherwydd pandemig coronafeirws (COVID-19).

Mae hon yn foment arwyddocaol yn ein hanes ac mae angen ei nodi'n briodol. Mae Llywodraeth Cymru yn gweithio'n agos gyda Llywodraeth y DU, y llywodraethau datganoledig eraill a phartneriaid fel y Lleng Brydeinig Frenhinol a'r lluoedd arfog yng Nghymru i sicrhau bod ein cyn-filwyr a pawb arall a chwaraeodd ran yn yr Ail Ryfel Byd – boed ar faes y frwydr neu'r ffrynt cartref – yn cael eu cofio ac yn derbyn ein diolch mewn ffordd sy'n cydfynd â'r cyfyngiadau presennol.

Yn y cyd-destun hwnnw, byddwn yn annog pobl i nodi'r achlysur yn unol â'r canllawiaupresennol ar bellhau cymdeithasol, sef o ddiogelwch eu cartrefi eu hunain. Mae gwybodaeth a chyngor ar sut y gellir nodi'r achlysur yn ddiogel gartref ar gael yma: https://ve-vjday75.gov.uk/ . Mae hyn yn cynnwys gweithgareddau a gemau i blant, ynghyd â syniadau am gynnal te parti ar thema'r 1940au – gyda ryseitiau a cherddoriaeth wreiddiol o'r diwrnod.

Bydd cyfathrebu digidol, sy'n chwarae rhan mor bwysig wrth ein helpu i gadw mewn cysylltiad ar hyn o bryd, hefyd yn rhan allweddol o'n digwyddiadau coffáu. Bydd y Prif Weinidog yn darlledu neges ar y cyfryngau cymdeithasol yn ogystal â chymryd rhan mewn sgwrs fideo gyda chyn-filwyr a byddwn yn annog pawb i anfon eu neges o gefnogaeth eu hunain a rhannu atgofion drwy sianeli cyfryngau cymdeithasol – gan ddefnyddio'r hashnodau #VEDay75 #DiwrnodVE75.

Yn y cyfnod yn arwain at 8 Mai, bydd yr hanesydd a'r darlledwr Dan Snow yn cynnal gwersi hanes i blant o ddydd Llun 4 Mai. Am 4pm ar ddydd Llun, dydd Mercher a dydd Gwener, bydd Dan yn cynnal HIT Hanes yn fyw ar y sianel YouTube Timeline. Bydd y darllediadau yn canolbwyntio ar agweddau amrywiol ar yr Ail Ryfel Byd ac yn anelu at addysgu'r cyhoedd am bwysigrwydd diwrnod VE.

Gall pobl hefyd nodi Diwrnod VE drwy ddarganfod eu cysylltiad eu hunain â'r Ail Ryfel Byd.

Fel rhan o hyn, bydd holl gofnodion hanesyddol y DU sydd ar gael ar ancestry.co.uk yn rhad ac am ddim i'r cyhoedd o ddydd Llun 4 Mai tan ddydd Sul 10 Mai, gan roi cyfle i bobl ddarganfod straeon personol yr Ail Ryfel Byd a dysgu am y rolau yr oedd eu teuluoedd yn eu chwarae.

Mae'r gweithgareddau a drefnir ar lefel y DU yn cynnwys y canlynol:

- Am 11 y bore, bydd y digwyddiadau coffáu yn dechrau gyda cyfnod o gofio, i'w nodi gyda dwy funud o dawelwch.
- Am 3pm, bydd araith 1945 Syr Winston Churchill i'r genedl yn cael ei darlledu ar y BBC fel rhan o raglenni arbennig sydd wedi eu paratoi ar gyfer y diwrnod.
- Am 9pm, bydd Ei Mawrhydi'r Frenhines yn darlledu neges i'r genedl ar y BBC – ar yr union foment y traddododd ei thad, y Brenin Siôr VI, araith radio yn 1945.

- Dilynir hyn gan gyfle i bobl ymgynnull ar garreg eu drws a chanu 'We'll Meet Again' fel gweithred o ddathlu.

Gobeithio y bydd y wybodaeth hon o ddefnydd i chi. Mae croeso i chi ei rannu ymhellach.

-----------------------------------------------------------------------------------------------------

We would like to update you on our plans to mark the anniversary of VE Day on 8 May.

It is with deep regret that our plans to hold major national events in Wales to commemorate the occasion have had to be cancelled due to the coronavirus (COVID-19) pandemic.

This is a significant moment in our history which needs to be marked appropriately.

The Welsh Government is working closely with the UK Government, the other Devolved Administrations and partners such as the Royal British Legion and Armed Services in Wales to ensure that our veterans and everyone who played a part in the Second World War – whether on the battle field or the home front – are remembered and receive our thanks in a way that takes account of the current restrictions.

In that context we would encourage people to mark the occasion in line with current social distancing guidelines from the safety of their own homes. There is information and guidance on how the occasion can be marked safely at home at https://ve-vjday75.gov.uk/ .This includes activities and games for children, along with ideas about holding a 1940s themed tea party – with original recipes and music from the day.

Digital communications, which are playing such a vital role in helping us stay connected at this time, will also be a key part of our commemorations. The First Minister will be broadcasting a message on social media as well as taking part in a video chat with veterans and would encourage everyone to send their own message of support and share memories via social media channels – using the hashtags #VEDay75 #DiwrnodVE75.

In the lead up to 8 May, historian and broadcaster Dan Snow will host history lessons for children from Monday 4 May. At 4pm on Monday, Wednesday and Friday, Dan will host a History Hit live on YouTube's Timeline channel that will focus on a different aspect of the Second World War and aim to teach the public about the importance of VE Day.

People can also mark VE Day by discovering their own connection to the Second World War. As part of this, all UK historical records available on ancestry.co.uk will be free for the public from Monday 4 May until Sunday 10 May, giving people the opportunity to uncover the personal stories of the Second World War and the roles their families played.

Activities which have been organised at the UK level include:

- At 11am commemorations will begin with a moment of remembrance, marked with a two minute silence.
- At 3pm, Sir Winston Churchill's 1945 speech to the nation will be broadcast on the BBC as part of special programmes planned for the day.
- At 9pm, HM The Queen will broadcast a message to the nation on the BBC – at the exact moment her father, King George VI, gave a radio address in 1945.
- This will be followed by an opportunity for people to gather on their doorsteps and sing 'We'll Meet Again' in an act of celebration.

I hope you find this useful. More than happy for you to share this wider.